# Amserlen Penderfyniadau

## Panel Trwyddedu (Tacsi)

**I BOB AELOD CYNGOR DINAS CASNEWYDD**

**Atodlen Penderfyniadau a gyhoeddwyd ar 5 Gorffennaf 2022**

Gwnaeth y Panel Trwyddedu Tacsis y penderfyniadau canlynol ar **5 Gorffennaf 2022**, a ddaeth i rym ar unwaith.

Cynghorwyr: Kate Thomas (Cadeirydd), Farzina Hussain, David Mayer

### Rhan 2

**Eitemau Eithriedig neu Gyfrinachol**

Mae'r eitemau canlynol yn cynnwys gwybodaeth gyfrinachol neu eithriedig fel y'i diffinnir yn Atodlen 12A i Ddeddf Llywodraeth Leol 1972. Felly, nid yw adroddiadau a phapurau cefndir sy'n ymwneud â'r penderfyniadau hyn i'w cyhoeddi ac maent yn ddarostyngedig i ddarpariaethau'r Ddeddf fel y maent yn ymwneud â chylchrediad i'r wasg a'r cyhoedd.

**LIC PAN 07/22**

**Trwyddedau Llogi Preifat / Cerbydau Hacni**

**Penderfyniad**

Gyrrwr AA

Ystyriodd y Panel Trwyddedu adroddiad y Swyddog a chyflwyniad lliniaru'r gyrrwr yn ofalus. Roedd y Panel o’r farn bod y gyrrwr yn berson addas a phriodol i barhau â'i drwydded gyda Chyngor Dinas Casnewydd ond dylai dderbyn rhybudd ysgrifenedig a dylai fod rhaid iddo basio'r Prawf Gwybodaeth o fewn 4 wythnos.

Gyrrwr BAHD

Gohiriwyd y gwrandawiad.

Gyrrwr JK

Ystyriodd y Panel Trwyddedu adroddiad y Swyddog a chyflwyniad lliniaru'r gyrrwr yn ofalus. O ganlyniad i gyflwyniad lliniaru'r gyrrwr. Penderfynodd y Panel atal trwydded y gyrrwr wrth ddisgwyl adroddiad meddygol gan feddyg teulu'r gyrrwr ei hun ac i'r gyrrwr ailsefyll a phasio Prawf Gwybodaeth y Cyngor. Cafodd rhybudd am ymddygiad y gyrrwr ei gyhoeddi hefyd gan y Panel.

**Ymgynghoriad**

Ddim yn berthnasol.

**Gweithredir gan:** Pennaeth y Gyfraith a Rheoleiddio
**Amserlen Weithredu:** Ar unwaith

---